

### Taflen Wybodaeth – Gofod Storio Slyri

O 1 Awst 2024 rhaid i chi sicrhau bod eich systemau storio slyri yn bodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

#### Gofod storio

- Rhaid i chi fod â digon o ofod storio i gadw'r slyri a gynhyrchir yn ystod y cyfnod storio a chydymffurfio â'r gofynion eraill yn y rheoliadau i beidio â chwalu slyri os oes risg sylweddol o lygru.
- Rhaid i'r storfa hefyd fod â digon o ofod ar gyfer unrhyw ddŵr glaw neu olchiadau sy'n mynd i mewn i'r storfa yn ystod y cyfnod storio.

#### Y cyfnod storio

- Rhaid darparu digon o le i storio am:
- 6 mis ar gyfer tail moch ac ieir (1 Hydref hyd 1 Ebrill)
- 5 mis ar gyfer pob math arall o dail a slyri (1 Hydref hyd 1 Mawrth)

#### Cyfrifo'r cyfaint o slyri a gynhyrchir yn ystod y cyfnod storio

- Rhaid i gyfaint y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y daliad gael ei gyfrifo yn unol â ffigyrau safonol yn Atodiad 2 yn nogfen canllawiau Llywodraeth Cymru.
- Efallai mai ychydig iawn o newid fydd o'r gofynion Silwair, Slyri a Thanwydd Olew Amaethyddol (SSAFO) presennol gan ddibynnu ar y dull a ddefnyddir i gyfrifo eich anghenion storio, yn amodol ar eich gallu i fodloni gofynion eraill y rheoliadau i beidio â chwalu pan fydd risg sylweddol o lygru.
- Rhaid i'r storfa hefyd fod â gofod storio i storio unrhyw law sy'n mynd i mewn i'r storfa (naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y cyfnod storio.
- Mae data am gyfartaledd glawiad (1 Hydref i 1 Mawrth) ar gael trwy borth MapDataCymru Llywodraeth Cymru ar sail cyfartaledd y cyfnod 1981 – 2010 gan y Swyddfa Dywydd.
- Rhaid i'ch cyfrifiad storio gael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r daliad, fel cynnydd yn nifer y da byw, i sicrhau bod gennych ddigon o le i storio.

#### Hysbysiad adeiladu

- Os bydd arnoch angen adeiladu storfa newydd, neu ehangu neu ailadeiladu storfa sy'n bodoli yn sylweddol, rhaid rhoi lleiafswm o 14 diwrnod o *rybudd* i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig cyn dechrau'r gwaith adeiladu.
- Bydd cynllunio yn gynnar yn rhoi mwy o amser i chi ddynodi os oes arnoch angen gweithredu, cael cyngor a, phan fydd hynny'n angenrheidiol, cael caniatâd cynllunio.

Gellir gweld canllawiau manwl yn [llyw.cymru/rheoli-tir](http://llyw.cymru/rheoli-tir)